Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bodawen

**Post Office Lane**
**Denbigh**
**LL16 3UN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Bodawen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bodawen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Kathryn Nash |
| Person â gofal | Carys Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 9.00yb – 2.45yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf yn dilyn cofrestriad |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/04/2023 |
| Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu ers 1966. Mae'r arweinydd wedi gweithio yn y lleoliad ers 1999 a wedi bod yn arweinydd ers 2003. Mae'r is-arweinydd wedi bod yn ei rôl ers 2006. Mae dealltwriaeth y tîm yn glir. Maent wedi croesawu trydydd aelod yn y flwyddyn diwethaf sydd yn eiddgar ac yn cydweithio'n hawddgar. Ar ôl dros hanner canrif ar y safle, maent yn paratoi i symud i adeilad newydd ar dir yr ysgol Gymraeg cyfagos. Mae tua hanner y plant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu<br>(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu<br>(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau llafar plant wrth ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

A2 Darparu cyfleoedd i hyrwyddo annibyniaeth a hyder y plant yn effeithiol yn ystod amser bwyd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau da yn gyson. Maent yn mwynhau y rhyddid i symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu y tu fewn ac yn yr ardal tu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn helpu eu hunain i adnoddau o fewn yr ardaloedd chwarae yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn symud o fwrdd i fwrdd yn paentio neu arbrofi gyda'r bwrdd golau a'r offer cerdd. Maent yn gwybod caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried yn llawn. Maent yn gofyn am gymorth cyn mynd i'r tŷ bach ac ar gyfer defnyddio rhai adnoddau tu fewn neu yn yr ardal tu allan.

Mae bron bob un plentyn yn setlo'n gyflym ac maent yn hapus yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu o'u rhieni a'u gofalwyr ac mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yng ngofal yr ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn mwynhau treulio amser yn astudio'r Bwrdd Perthyn sydd yn cynnwys lluniau teuluoedd y plant. Mae bron bob un ohonynt yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn cymdeithasu, sgwrsio, chwerthin a chanu wrth chwarae. Maent yn datblygu perthnasau agos a chynnes gyda'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Mae plant yn frwdfrydig wrth ddangos eu gwaith i ymarferwyr ac yn awyddus i ddangos eu medrau i ymwelwyr. Mae plant yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad ac yn ymdopi yn dda â newidiadau i amserlen y dydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasu a rhyngweithio da ac yn rhannu yn ddiffwdan wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn cydweithio wrth lenwi a

gwagio berfa gan aros eu tro yn amyneddgar. Maent hefyd yn mwynhau cyfri ar y cyd a datrys problemau gan arddangos lefel dda o wydnwch. Mae bron bob un plentyn yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, wrth iddynt chwarae gyda llestri te pren, maent yn mwynhau rhyngweithio a gweld eu cyfoedion yn llwyddo. Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau cymryd cyfrifoldeb. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd arbrofi â sisyrnau, mae plant yn canolbwyntio wrth dorri ac yn dangos mwynhad wrth iddynt dderbyn clod gan ymarferwyr.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gydwybodol, egnïol a brwdfrydig. Er enghraifft, maent yn canu wrth chwarae yn y dŵr neu wrth baentio wrth yr îsl ac yn mynd ati yn annibynnol i wisgo a dadwisgo eu ffedogau. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol, llythrennedd, rhifedd a’u creadigrwydd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn mwynhau canolbwyntio ac arbrofi am gyfnodau hir gydag arddangosfa trychfilod ac yn eu cuddio o dan darnau o bren. Mae’r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio’n bwrpasol yn eu gwaith wrth iddynt arbrofi gydag adnoddau. Er enghraifft, yn yr ardal tu allan, maent yn diddori a threulio amser yn canolbwyntio wrth osod peli golff ar bibellau dŵr a’u gweld yn symud yn igam-ogam cyn disgyn i fasged ar y llawr.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, wrth iddynt ddefnyddio’r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo a bwyta. Maent yn dangos balchder wrth gyflawni tasgau fel taenu menyn ar graceri ac yn dangos mwynhad wrth dderbyn canmoliaeth ac wrth lwyddo. Mae’r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau ac yn gallu penderfynu sut i dreulio eu hamser yn dda. O ganlyniad, maent yn dyfalbarhau’n fwriadus wrth ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Er enghraifft, maent yn dysgu sychu eu trwynau’n annibynnol yn y ‘gornel snwffian’.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn datblygu medrau corfforol cadarn ac yn fedrus wrth ddatblygu medrau rhifedd a datrys problemau. Maent yn dangos gwydnwch ac yn ymgolli’n llwyr yn eu chwarae. Mae bron bob un yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd. Er enghraifft, mae bron bob un yn hoffi gwrando yn astud ar stori ac yn ymateb yn bwrpasol i gwestiynau, gan ddwyn i gof ddarnau o’r testun yn llwyddiannus. Maent yn mynegi eu hunain yn dda gan ddefnyddio ystod o eirfa a brawddegau llawn, er enghraifft, wrth drafod sut i wneud cawl yn y gegin fwd. Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer marcio mawr a bach yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu lluniau trychfilod lliwgar.

Mae bron bob un o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd ac yn hyderus wrth arbrofi gyda siâp, maint a phatrwm. Maent yn ymfalchïo wrth greu pili pala cymesur gan ddweud eu bod wedi creu adlewyrchiad. Mae bron bob un yn cyfrif gwrthrychau’n hyderus hyd at bump, gyda llawer yn cyfrif hyd at ddeg wrth ddosbarthu tedis yn ôl lliw. Mae tua hanner y plant yn dechrau adnabod rhifau yn dda, er enghraifft, wrth osod cerrig yn y man priodol ar linell rhif.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cydweithio’n effeithiol wrth ddewis yr offer priodol i symud dŵr i’r gegin fwd. Mae bron bob un o'r plant yn defnyddio y tuniau siarad yn

annibynnol i gyfoethogi'u chwarae a'u dysgu yn dda. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddefnyddio offer digidol i hyrwyddo medrau cyfathrebu.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda trwy beintio pili pala cymesur yn annibynnol, a lluniau trychfilod gyda piniau ffelt. Maent yn ymfalchïo wrth weld eu lluniau yn cael eu harddangos yn yr oriel. Maent yn datblygu eu medrau modur mân yn llwyddiannus trwy greu gwahanol fathau o fodelau gan ddefnyddio toes. Mae mwyafrif yn dangos mwynhad wrth ganu caneuon cyfarwydd yn ystod sesiynau chwarae a stori. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig wrth ganu pen-blwydd hapus i Doti. Mae bron bob un o'r plant yn arddangos sgiliau corfforol cryf ac yn rheoli risg eu hunain yn effeithiol. Maent yn dringo i fyny grisiau'r llithren ac yn llithro i lawr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Maent yn taflu a dal peli yn llwyddiannus ac yn cerdded ar hyd y trawstiau pren yn fedrus. Maent yn gwthio bygi yn fedrus iawn gyda phlentyn yn eistedd ynddo. Maent yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn effeithiol wrth ddefnyddio siswrn i dorri papur.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr am anghenion unigol plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau'n fanwl ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae'r gweithdrefnau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau, gwisgo menig wrth baratoi bwyd ac yn golchi dwylo yn rheolaidd. Maent yn ymwybodol o anghenion iechyd y plant ac mae ganddynt weithdrefnau clir i gefnogi'r anghenion hynny.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn am brosesau diogelu plant ac maent yn hyderus i'w gweithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn addas ar bob adeg ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau derbyn a gadael yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl a chynnes gyda'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn rhyngweithio'n naturiol ac yn esbonio a chefnogi'r plant i barchu ei gilydd. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl da iawn ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol gan wrando, cydweithio ac egluro mewn modd clir a gofalgar. Er enghraifft, wrth i blant gyrraedd, mae ymarferwyr yn adeiladu eu hyder trwy ddefnyddio cyfres o ddelweddau ar begiau siarad sy'n dangos trefn y sesiwn.

Mae ymarferwyr yn adeiladu perthynas dda iawn gyda'r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u anghenion a'u dymuniadau unigol. Yn ogystal, mae gan y lleoliad weithdrefnau a rhwydweithiau pwrpasol yn eu lle ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn darparu naws ac amgylchedd sydd yn meithrin gofal ac yn dangos parch ar bob adeg. Mae ymarferwyr yn annog annibyniaeth y plant mewn modd caredig a sensitif ac yn cynnig anogaeth i adeiladu ar eu medrau unigol i feithrin eu hunan barch. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu cyfleoedd i feithrin annibyniaeth y plant yn llawn yn ystod cyfnodau bwyta. Mae

ymarferwyr yn ymestyn profiadau dysgu'r plant yn ddigymell. Er enghraifft, yn yr ardal tu allan maent yn sgwrsio gyda'r plant am y lindys gan eu hannog i feddwl a chynnig syniadau eu hunain.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau a chyfleoedd dysgu priodol sy'n datblygu medrau'r plant mewn gwahanol gyd-destunau. Caiff y plant gyfleoedd cyfoethog i gymhwyso amrediad o fedrau wrth drafod lliwiau a phatrwm sydd ar adenydd y pili pala. Mae ymarferwyr yn annog y plant i enwi ac adnabod y lliwiau yn y Gymraeg ac yn modelu geirfa yn llwyddiannus. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu medrau trwy ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wrth chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn bwydo geirfa yn gyson, er enghraifft wrth chware gêm lotto trafnidiaeth. Maent yn cynllunio ystod eang o brofiadau gwerthfawr sy'n ymateb i ddiddordebau'r plant yn effeithiol. O ganlyniad mae'r rhan fwyaf o blant yn cynnal diddordeb wrth chwarae am gyfnodau cynyddol estynedig. Mae ymarferwyr yn addasu'r adnoddau sydd ar gael gan ddilyn diddordebau'r plant ac yn newid y dewisiadau o adnoddau ar y byrddau yn ôl llais y plentyn yn ystod y sesiynau. Er enghraifft, maent yn ychwanegu adnoddau naturiol, fel brigau, dail a cherrig i ardaloedd tu allan wrth i blant baratoi cawl.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plentyn ac maent yn cynnig darpariaeth effeithiol sy'n herio bron bob un o'r plant yn llwyddiannus ac yn gadael iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain. Maent yn ymyrryd yn fedrus wrth i'r plant chwarae, gan gynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i wrando ar y tuniau recordio wrth i'r plant chwarae ac arbrofi yn yr ardal gerddoriaeth gydag amrywiaeth o offerynnau.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol â'r plant. Maent yn eu holi'n gelfydd iawn sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Er enghraifft, wrth i blant sôn am y pili pala, mae'r ymarferwyr yn holi am y lliwiau maent yn defnyddio, sut mae'r pili pala yn symud, o ble daeth y pili pala gan gyfeirio i ddysgu blaenorol am y Lindys Lwglyd.

Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac yn modelu'r Gymraeg yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau creadigol a chorfforol y plant yn gyson dda ac yn cynnig cyfleoedd ymarferol i'r plant ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Er enghraifft, trwy greu gardd gudd ar waelod yr ardd a chuddfan i alluogi'r plant i deimlo yn gyffyrddus yn yr ardal allanol.

Yn ogystal, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant a chwarae ac i gefnogi eu hymwybyddiaeth o'u cymuned. Er enghraifft, maent yn mwynhau mynd am dro i'r llyfrgell leol i chwilio am lyfrau a phrynu cynhwysion yn y siop leol i'w defnyddio yn ystod sesiynau coginio.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda. Maent yn datblygu eu chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas drwy ddathlu achlysuron diwylliannol megis Blwyddyn Newydd Tsieina.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Maent yn rhoi clod i'r plant yn gyson wrth iddynt rannu adnoddau a bod yn garedig ag eraill.

Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau a dathliadau fel diwrnod Santes Dwynwen a dydd Gŵyl Dewi a dathlu canmlwyddiant mudiad yr Urdd.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau arsylwi ac asesu pwrpasol, sy'n galluogi'r ymarferwyr i ddefnyddio'r wybodaeth i gynllunio ystod dda o gyfleoedd dysgu a chwarae priodol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth dda i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant drwy drafodaethau wyneb yn wyneb.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Nid oes modd i ymwelwyr gael mynediad i'r lleoliad oni bai fod arweinwyr neu ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Gofynnir i ymwelwyr mewngofnodi yn brydlon a chedwir cofnodion o hyn ar y safle. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Cedwir cofnodion plant ac ymarferwyr yn gyfrinachol.

Lleolir y gwasanaeth mewn hen adeilad, lle mae hanes y chwarae a'r gofal yn amlwg wrth i blant barhau i gael mwynhad gydag offer hanesyddol fel y sleid a'r îsl. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad a'r offer i ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd. Er enghraifft, yr offer tân a'r blychau cymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol ar gyfer y lleoliad ynghyd â'r ardaloedd tu allan, ac maent yn cael eu hadolygu yn gywrain. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi asesu risg un ardal chwarae tu allan ac o ganlyniad nid yw'n cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau diogelwch llwyr. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod o hysbysebion a phosteri defnyddiol a phwrpasol o gwmpas y lleoliad, sydd yn cefnogi eu gweithdrefnau clir, fel siart lif ynglŷn â diogelu plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd sydd yn cynnig ethos croesawgar, cyfeillgar a chynnes. Mae'r amgylchedd dan do yn cynnig digon o le ar gyfer y nifer o blant sydd yn mynychu'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas ynghyd â chyfleusterau pwrpasol i olchi a sychu dwylo a newid cewynnau addas, sy'n parchu preifatrwydd y plant ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo eu hannibyniaeth. Maent wedi creu amgylchedd ysgogol a chyffrous yn yr ardal tu allan sydd yn cynnig heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant gymryd risg a datblygu chwilfrydedd. Mae'r ardal hon yn cynnig ardaloedd hudolus; ceir cysgod o dan y goeden stori, teiars mawr sy'n cynnwys tywod a cherrig ac ardal gudd gyda sied sy'n cynnig profiadau chwarae dychmygol a chreadigol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch i blant a'u cefnogi i fentro. Er enghraifft, caiff plant eu herio i lenwi, cario a gwagio ystod o gynwysyddion a'u symud a'u trafod mewn ffyrdd dychmygol.

Mae adnoddau amrywiol a phwrpasol, ar lefelau isel, ym mhob ardal dan do ac yn yr ardal tu allan. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i deganau, adnoddau a chyfarpar eang, sydd yn eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol. Er enghraifft, adnoddau pren a naturiol, adnoddau o safon yn yr ardal mathemateg fel rhifau magnetig a darnau rhydd fel cregyn yn yr ardal ymchwilio. Mae'r ardal tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol, creadigol ac arbrofol yn effeithiol. Mae'r teganau a'r adnoddau yn addas ac o safon uchel. Maent yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig cyfleoedd i blant chwarae ag adnoddau amlddiwylliannol. Er enghraifft, mae doliau, llyfrau ac adnoddau o wahanol ddiwylliannau ar gael tu mewn a thu allan. Yn ogystal, maent yn cael cyfleoedd i ddysgu am ddiwrnodau ac achlysuron penodol. Er enghraifft, dathliadau'r Urdd, ac arddangosfeydd pwrpasol am Gymru a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r ymddiriedolwyr cydwybodol yn sicrhau bod prosesau effeithlon yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar greu gwelliannau cyson i weithdrefnau'r lleoliad. Mae'r arweinydd yn brofiadol iawn ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant. Mae wedi llwyddo i greu awyrgylch gartrefol i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n ardderchog fel tîm i gynnig gofal a chymorth o safon uchel. Mae'r arweinwyr yn rheoli ymarferwyr yn gydwybodol trwy eu gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu. Maent yn adnabod cryfderau'r staff yn drylwyr a'r hyn sydd angen arnynt i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r trefniadau goruchwylio yn sicrhau atebolrwydd yr holl ymarferwyr am safon y ddarpariaeth a deilliannau plant yn ogystal â chynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu'n broffesiynol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o hyfforddiant perthnasol i ddatblygu medrau ymarferwyr, er enghraifft wrth godi eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan arweinwyr drefniadau syml ac effeithiol ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn gwneud defnydd gwerthfawr o adborth athrawon ymgynghorol yr awdurdod addysg lleol ac adborth rhieni a gofalwyr, fel rhan o'r gweithdrefnau hyn.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o unrhyw grantiau i wella profiadau ar gyfer plant. Yn ddiweddar, maent wedi buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau newydd yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan, sydd yn arwain at ddarparu mwy o brofiadau gwerthfawr i'r plant. Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn effeithiol a blaenoriaethu gwariant yn briodol  Maent wedi archebu bwrdd marcio i'r ardal tu allan, a chuddfan i greu lloches i blant i gael pum munud o lonydd.

Mae gan ymarferwyr bartneriaeth ardderchog gyda rhieni. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i hysbysu rhieni am y gwasanaeth ac i gynnig arweiniad yn ôl yr angen. Rhennir llyfryn am y lleoliad gyda'r rhieni cyn i'w plentyn ddechrau yn y ddarpariaeth, sy'n cynnig gwybodaeth am weithdrefnau'r lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 30 Mehefin 2023

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023